Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

*Golygydd—*Y Parch. *J. D. JONES, B.A., B.D.*

Cyfrol xlvii. CHWEFROR, 1947. Rhif 2.

Ail Adrodd Hen Hanes.

Gan y Parchedig David Evans, Cwmiago.

Saith deg o flynyddoedd sydd er pan ddigwyddodd peth hynod ynglŷn âg un o'n Heglwysi—Eglwys Llwynrhydowen. Gŵyr ein darllenwyr y sydd gyfarwydd â dyffryn Cletwr am y ddau gapel heb fod ohonynt chwarter milltir y naill oddiwrth y llall—un yn gapel newydd, hardd ; y llall yn hen ; eithr er bod yr olaf yn hen, adeilad cadarn ydyw, a allai wasanaethu fel addoldy am amser maith eto. Er gwybod o'n darllenwyr bod yno ddau gapel, i ba nifer ohonynt y mae'r amgylchiadau a berodd i'r newydd gael ei adeiladu yn wybyddus. Yna, ychydig bellter o'r hen gapel, ar ymyl y ffordd i Landysul, gwelir tŷ o goed a fu, am beth amser, yn addoldy (man cynnull) i'r un Eglwys. Tri chapel at wasanaeth un gynulleidfa ! Pe gofynnid i genhedlaeth ieuanc y dyffryn roddi esboniad o'r ffaith, pa nifer ohonynt, tybed, a fedrai ateb ? Onid yw o werth cadw'n fyw y côf am yr amgylchiadau a gyfrif am eu bod, modd y gwelont trwy ba orthrymderau caled a phoenus y bu raid i'n tadau fynd er ennill ohonynt *i ni* y rhyddid a fwynhawn ?

Yr wythnos cyn y Sul olaf o Hydref y flwyddyn 1876, edrychai aelodau'r Eglwys, fel arfer, ym mlaen at wasanaeth y Sul dilynol,a pharatoai'r gweinidog (Gwilym Marles) ei neges iddynt, heb freuddwydio ohonynt bod dim anarferol i ddigwydd. Fel y nesâi'r Sul, modd bynnag, lledai'r si na chaniateid i'r gweinidog a'i bobl fynd i mewn i'r capel a garent mor fawr. Yr oedd y si yn ymylu ar yr anghredadwy ; ac eto, nid heb gryn bryder yr edrychid ymlaen at doriad gwawr y Sul. Y Sul a ddaeth ; ac ymhell cyn amser arferol y gwasanaeth, tyrrai'r bobl o bob cyfeiriad tua'r fangre gysegredig ; a gwelwyd bod y glwyd a arweiniai i'r gladdfa wedi'i sicrhau â chadwyn haearn gref, a drysau'r addoldy wedi'u cloi. Beth oedd wedi digwydd ? Y tir-feistr wedi cymryd meddiant o'r lle. Perodd hyn, yn naturiol, ddwyster teimlad angherddol. Ba syndod—

cynulleidfa wedi'i throi allan o'r fangre y buont hwy, fel eu hynafiaid dros amryw genedlaethau, yn cyrchu iddi i addoli yn y modd y barnent hwy'n orau. Onid yw'r hanes yn fwy tebyg i hanes rhyw ddigwyddiad o natur erlidiol yn y canol oesoedd nag yw i ddim arall; ac eto digwyddiad a berthyn i'r chwarter olaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ydyw.

Yn ddiymdroi, aethpwyd ynghyd ag adeiladu tŷ o goed ; dyna beth yw'r tŷ coed y soniwyd am dano eisoes. Ni chollwyd amser i ddarparu adeilad mwy parhaol—y capel hardd presennol. Deffrôdd y digwyddiad y fath gydymdeimlad trwy Gymru gyfan a Lloegr, ymhlith pobl o bob enwad, fel na chafwyd un anhawster i sicrhau digon o gymorth ariannol.

Beth, ynteu, a fu canlyniadau'r " Troad allan " ? Bu iddo, yn ddiau, lawer o ganlyniadau—canlyniadau, gadawer inni obeithio, na ddiffoddir mohonynt. Nid enwaf ond un ohonynt, sef, iddo dorri'n ddarnau y cadwyni a fu'n cadw'r werin-bobl mewn caethiwed hyd hynny, a gwelwyd baner rhyddid yn chwifio uwch bryniau a dyffrynnoedd Cymru, heb ofni i neb gael o honi ei thynnu i lawr drachefn. Y mae bywyd crefyddol ein gwlad—ie, ei bywyd gwleidyddol hefyd—yn iachach oblegid y " Troad allan."

Oes gan y " Troad allan " genadwri *i ni* o'r genhedlaeth bresennol ? Yn enwedig, oes ganddo genadwri i'r genhedlaeth ieuanc ? Oes, yn sicr—y genadwri hon ; y gelwir arnom i wneuthur a allom i gadw'n ddilychwin y faner y gwnaeth Gwilym Marles a'i bobl ddewr a ffyddlon gymaint o aberth o'i phlaid—baner a ddug yn argraffedig arni yr arwyddair—" Rhyddid, gwirionedd, a brawdgarwch." Arwyddair yw hon a ddylai apelio'n nerthol at ieuenctid ein Heglwysi ; oblegid i'w rhan hwy, yn fuan iawn, y syrth y cyfrifoldeb o gludo'r faner yn nes i fuddugoliaeth lwyr.

Onid ein perygl ni i gyd yw bodloni ar orffwys ar ein rhwyfau—byw ar yr etifeddiaeth a enillwyd inni gan ein tadau—a enillwyd inni, yn fynych, am bris rhyfeddol o fawr ? Dyry Emyn fynegiad cywir a thlws i'r perygl hwn—fel hyn :

" 'Rym, ein Duw, yn ofni weithiau,
Mai rhy rwydd yw'n llwybrau ni ;
Ac y dichon inni golli
Awydd am dy gwmni di."

Ie, dyna yw'r perygl—i rwyddineb ein llwybrau beri inni syrthio i ddifaterwch, a gadael i'n hetifeddiaeth werthfawr lithro o'n gafael.

Oni welwn, felly, fuddioldeb gwybod y cwbl a ellir ei wybod am y frwydr fawr, hir, boeth, waedlyd mewn aml achos, dros Ryddid a Gwirionedd a Brawdgarwch ? Oblegid nid yw a ddigwyddodd yn y Llwyn amgen nag adnod fer o bennod eithriadol hir. Estyn yr hanes yn ôl dros ganrifoedd na ellir dywedyd eu nifer. O

ddarllen a fedrwn ohono, braidd na thybiwn glywed ohonom leisiau o'r gorffennol a'n hatgofia o'n dyled iddynt, ac a'n hannog i fod yn deilwng olynwyr iddynt. Yn un o'i ddarnau swynolaf, dyry Robert Bryan fynegiad i'r neges fel hyn :

Cofia'r dewrion fu yn ffyddlon,
Drwy waeth pydiau fil na'r rhain ;
Cofia pwy bu'r gwaed yn chwysu,
Pwy fu'n gwisgo'r goron ddrain ;
Arwyr moes pob oes fu'n dioddef
Ing am garu dynol ryw ;
Mynna dithau, megis hwythau,
Ddewis adfyd pobl Dduw.

Onid braint a fyddai cael ohonom ein gwneuthur " yn debyg i'r ffyddloniaid dewrion gynt ? "

Timothy Davis (1779-1860).

EI GARTREF A'I DEULU.

Gan Miss K. Jones, Gellifaharen.

Bydd y Capel Undodaidd yn Oat Street, Evesham, yn ddiddordeb bythol i Undodiaid Ceredigion, canys yno yn ystod ei flynyddoedd olaf y bu'r Parchedig Benjamin Davis yn gweinidogaethu. Brawd ydoedd i Ddafis Castell Hywel, ac yno, am gyfnod hwy, y bu ei nai (testun yr ysgrif hon) yn pregethu.

Maith ydyw'r rhestr o'n cynulleidfaoedd yn Lloegr sydd wedi edrych tuag at Gymru am eu bugeiliaid, ac o'r Cymry a aeth i Loegr yn weinidogion, ychydig hwyrach a fu'n hwy eu dylanwad na'r Parchedig Timothy Davis. Ail fab y bardd o Gastell Hywel ydoedd, a ganed ef yn y Plasbach, Ciliau, yn 1779. Nid oedd ond pedair oed pan symudodd ei dad i un o'r ffermydd mwyaf yng nghymdogaeth Llandysul. Yng Nghastell Hywel dilynodd Dafis ei dair swydd, athro ysgol, pregethwr yr efengyl, ac amaethwr. Prin oedd ei amser i ofalu am addysg ei blant ei hun. Am fod yr angen mor fawr am weithwyr yn y meysydd, cadwyd Timothy ar y fferm hyd nes yr oedd yn ddwy ar bymtheg oed. Ond bachgen sychedig am wybodaeth ydoedd, a dywedir nad oedd yn ail i neb o'r disgyblion eraill yn ei safon. Bachgen tawel, meddylgar oedd, yn dweud ychydig ac yn meddwl llawer.

Yn ystod y gwasanaeth un prynhawn Sul eisteddai ar ffwrwm yng nghanol haid o fechgyn anesmwyth. Ni chlywai ef eu sibryd-

ion na'u cyffro anweddaidd : yr oedd ei sylw wedi ei hoelio ar bregeth ei dad. Beth yr oedd ei dad yn ei ddweud ? Ai ato ef yr amcanai gyfeirio ei genadwri ? Trawyd tant yn y galon ifanc, ac ni ellid distewi'r miwsig. Cytunai ei ffrindiau iddo dderbyn " galwad uniongyrchol," ond dywedai ef ei hun flynyddoedd yn ddiweddarach mai effaith cymeriad ei dad a symlrwydd i eiriau toddedig a fu'n foddion iddo benderfynu'r dydd hwnnw fynd yn weinidog yr Efengyl.

Cyfrifid Dafis Castell Hywel gan rai awdurdodau yn un o bregethwyr mawr Cymru, a gofalai am bedair cynulleidfa, Ciliau Galltyplaca, Llwynrhydowen, a Phenrhiw. Ni ddywedir ym mha un ohonynt y digwyddai Timothy fod y dydd bythgofiadwy hwnnw. Deellir fod ei frawd hynaf, David—wedi hynny y Parchedig David Davis, Castell Nedd—yn pregethu ei bregeth gyntaf tua'r adeg hon yn y Llwyn.

Wedi iddo dderbyn caniatâd ei rieni i gymryd y cam pwysig hwn, aeth y bachgen yn fuan i Gaerfyrddin i astudio dan y Parchedig David Peters, a derbyniwyd ef i'r Coleg yn 1796. Pregethodd ei bregeth gyntaf yn y Llwyn. Bu'n cynorthwyo ei dad am naw mlynedd, ac ordeiniwyd ef ar Awst 19, 1802. Yn y cyfnod hwnnw ychydig ydoedd nifer yr Undodiaid. Ariad oedd Timothy Davis. Ni fynnai'r Parchedig David Peters dderbyn i'r Coleg unrhyw un a goleddai ddaliadau'r Undodiaid.[1] Er ei fod yn gul ei safbwynt

---

[1]Dyma farn y Prifathro W. J. Evans, M.A. yn Yr Ymofynnydd, Mai 1901, " Mr. Peter was an Independent and a Trinitarian. He has been charged with intolerance towards Unitarians in his administration of the College, but it is probably a misconception. His temperament was indeed warm and excitable, and may have betrayed him on provocation, into occasional indiscretions ; but there was in him nothing of settled prejudice. In the eyes of many of his orthodox contemporaries moderation was his foible." Pedwar o ddisgyblion Dr. Charles Lloyd oedd yr Undodiaid y gwaharddwyd eu derbyn i'r Coleg yn 1801 a 1802—Dr. Henry Davies, (1782—1848), Gloucester ; John Lewis (1781—1805) ; Dr. Daniel Jones (1782—1866), Gravesend ; John James (1779—1864), Gellionnen.

Hwyrach y bydd y paragraff hwn o eiddo Dyfnallt yn *Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* yn bwrw golau ar safbwynt diwinyddol David Peter. " Ond yr oedd Cyffes Ffydd y gweinidog newydd, ddiwrnod ei ordeinio, yn sicr o fod yn swnio fel utgorn rhyfel yng nghlyw adran o'r Eglwys. Nid oes ynddi un gair o gyfaddawd. Cyffes Trindodwr pendant ydyw. Ni allai credo felly oedd yn dafod i argyhoeddiad personoliaeth gref lai nag arwain ar fyrder i drobwynt a thrawsgyweiriad yn hanes yr Eglwys. Hyn, yn ddiamau, a barodd iddo yn gynnar yn ei weinidogaeth draddodi cyfres o bregethau ar athrawiaethau sylfaenol y grefydd Gristnogol. Dechreuwyd cyfres yn Ionawr, 1798. Anodd iawn yw ffurfio barn am ei nodweddion fel pregethwr, gan nad oes nemor ddim, yn anffodus, o'i bregethau ar glawr.

yr oedd Prifathro'r Coleg yn ddyn o ddelfrydau mawr. Cyfrannodd i'r myfyrwyr y ddysgeidiaeth orau yn ei allu. Yr oedd maes yr efrydiau yn un llydan. Er hynny gwreiddio yr oedd y ffydd Undodaidd, a than ddylanwad ei frawd, David Davis o Gastell Nedd, meddyliwr didwyll ac eofn, cefnodd Timothy Davis ar Ariaeth gan goleddu Undodiaeth. I ddiwedd ei oes parhaodd yn edmygydd mawr o Dr. Priestley.

I broffwyd nid oes anrhydedd yn ei wlad ei hun, medd y Testament Newydd. Ni ellir cymhwyso'r dywediad at Timothy Davis. Aeth ei boblogrwydd ef yn fwy, ac enillodd ei lais melys glust tyrfa o chwech i wyth gant o aelodau. Er llwyddiant ei weinidogaeth yng Nghymru, i Loegr yr aeth. Ymwelodd â chartref ei ewythr, Benjamin, yn Evesham am y tro cyntaf yn 1803, ac yn union ar ôl

---

Prif nod ei bregethu yn y blynyddoedd cyntaf oedd goleuo ei wrandawyr ar brif wirioneddau crefydd a'u cymell i fabwysiadu'r athrawiaethau uniongred, a'u ddiddyfnu oddiwrth bob ymlyniad wrth draddodiadau Arminaidd ac Ariaidd. Brwydr fawr oedd hon, oblegid yr oedd llwyddo i drawsnewid Eglwys Heol Awst i'r ffydd Drindodaidd yn golygu buddugoliaeth Annibyniaeth a Thrindodiaeth yn Sir Gaerfyrddin a De-Orllewin Cymru . . . a chan fod llef y weinidogaeth yn mynd yn fwy clochaidd o efengylaidd a Chalfinaidd, daeth yn argyfwng ar weddill y Gwrth-Drindodwyr. Y diwedd fu iddynt ymadael â'r hen gorlan yn 1814, a ffurfio yn Eglwys Undodaidd yn y Porth Tywyll."

Anodd cysoni darlun Dyfnallt ohono a darlun y Prifathro W. J. Evans, "In the eyes of many of his orthodox contemporaries moderation was his foible." Yn wir cyhuddid David Peter ar dro o fod yn Ariad yn gwadu Duwdod Crist. Dyna ergyd pennill Shôn Llwyd. Pechod parod y bardd ydoedd yfed gormod yn awr ac eilwaith. Gwelodd David Peter ef yn y cyflwr, a dygwyd ei achos o flaen yr Eglwys. Pan ofynnwyd iddo lefaru drosto'i hun, atebodd—

"Fe feddwodd Lot dduwiolaf,
Bu Noa'n wael ei hun,
Fe odinebodd Dafydd,
Fe laddodd Moses ddyn,
Fe wadodd Abram, Sara,
'Roedd hynny'n newydd trist,
Ond dyna, gwaeth na'r cyfan,
Fe wadodd Peter Grist."

"Os cwympodd yr holl dduwiolion hyn, beth ddisgwyliech gan hen saer fel myfi?" "Cer i dy le," meddai David Peter.

Yr oedd dau o feibion chwaer David Peter yn y weinidogaeth Undodaidd, David Peter Davies (1785-1844) yn Belper a Chaerfyrddin, a Peter Thomas Davies (1792-1872) yn Belper a Newbury.

hynny derbyniodd alwad o Gosely, ond nis derbyniodd. Wedi meddwl yn ddwys penderfynodd fynd i Coventry yn 1810. Derbyniodd yr alwad, ond ni feddyliodd y byddai ymadael â gwlad ei dadau yn peri'r fath loes i'w ysbryd. Carai fynyddoedd a nentydd a fforestydd yr henfro, ac yr oedd pang yn ei galon wrth groesi'r ffin i Loegr. Yng nghalon ei hen ffrindiau hefyd yr oedd hiraeth dwys ar ei ôl. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn y Great Meeting, Coventry, ym mis Medi 1811, ac yno daeth i gyswllt â phobl ddysgedig, fel Dr. Toulmain, Dr. Abraham Rees, a Dr. Lindsay. Bu'r gyfeillach newydd yn ennill ac yn ysbrydiaeth iddo, ac i raddau helaeth bu'n gyfrwng i leddfu ing ei hiraeth am Geredigion.

Nid oes amheuaeth hefyd am ei ddiddordeb arall, canys ar Fedi 19, 1811 priododd Elizabeth New, unig ferch Anthony New a ddisgrifir fel wool stapler o Evesham, ac yn 1818 daeth Timothy Davis yn ôl i Evesham lle y bu'n gweinidogaethu am bymtheg mlynedd ar hugain, yn ddyn diwyd ac yn fawr ei barch. Ysbrydiaeth ei lwyddiant oedd awyrgylch ei aelwyd ei hun, noddfa dawel iddo yn holl helyntion ei fywyd diwyd.

Hanai Elizabeth o un o hen deuluoedd Evesham a fu am genedlaethau'n aelodau brwdfrydig o'r achos yn Oat Street. Dynes grefyddol ydoedd, ac fe'i profodd ei hun yn wraig ac yn fam ddelfrydol, ei moes a'i dylanwad yn argraffu'n ddwfn ar ei theulu. Yn ei henaint daeth i Mrs. Davis yr aflwydd o golli ei golwg, adfyd a ddioddefodd yn wrol, ac yn fynych arferai dreulio oriau hirion ei thywyllwch yn torri papur diangen yn y dyb y gellid defnyddio hwnnw i lanw clustogau. Cyrhaeddodd yr oedran teg o gant ond tair.

Ganwyd iddynt un ar ddeg o blant, ond dim ond pump a oroesodd. Cerddasant lwybrau galar a'i calonnau'n friw, ond fel Job gynt ymgysurasant a bendithiasant yr Arglwydd. Yr oedd y plant a oroesodd yn nodedig am eu talentau disglair. Oddiar 1838 hen dŷ hardd o'r enw " Almswòod " oedd eu cartref, tŷ a godwyd rywbryd yn yr ail ganrif ar bymtheg. Yn y cefn yr oedd gardd lawn prysgwydd, a thŷ haf, lle yr arferai Mrs. Davis dreulio ychydig seibiant. Llefarai'r ffenestri hen ffasiwn a'r stâr dderi a'r balcon rhyfedd am ddyddiau a fu. O ffrynt y tŷ ceid golwg ar yr High Street.

Ar gefn ei geffyl ym mhob tywydd gellid cyfarfod â'r Parchedig Timothy Davis ar y Sul ar yr heolydd lleidiog ogylch Evesham, ei glogyn trwm yn dynn amdano, *gaiters* am ei goesau, mwffler gwyn am ei wddf, ac o dan ei het a'i chantel lydan ei wallt arian yn disgyn yn gudynnau modrwyog. Yr oedd y pregethwr ar y ffordd i gyflawni ei ddyledswyddau yn hen gapel Alcester, pentref bychan ychydig dros ddeg milltir o'i gartref. Nid oedd yno gynulleidfa lewyrchus, ac aeth y gwasanaeth ychwanegol hwn, a gymerth Timothy Davis yn 1819, yn faich trymach yng nghwrs y blynydd-

oedd hyd nes y daeth y Parchedig Thomas Warren i'w dderbyn o'i law. Un o ddynion da Duw oedd Timothy Davis, dyn o galon wresog a chydymdeimlad parod. Yr oedd ganddo gylch helaeth o gyfeillion yn y cymdogaethau.

Deuai'n gyson i Geredigion. Disgwylid ei glywed yn pregethu i gynulleidfaoedd ei dad, ac yr oedd iddo groeso parchus. Bu Dafis Castell Hywel farw yn 1827, a gweinyddwyd arno yn ei gystudd gan ei fab ffyddlon, Timothy. Yn y dyddiau hynny yr oedd angladdau'n ddigwyddiadau pwysig : ceisiai'r tlawd a'r cyfoethog gyrchu i'r cynhebrwng. Yr oedd Dafis Castell Hywel yn ddyn mor adnabyddus, dywedir fod yn agos i bymtheg cant o bobl yn ei gladdedigaeth. Wrth ddrws y tŷ gwasanaethodd Timothy yn syml ei eiriau, ac adroddodd un o emynau ei dad.

> Dy heddwch, Ior, a gweld dy wedd
> Yw'r cysur mwyaf hyd fy medd,
> Ond gwell fydd im' gartrefu'n llon
> Yn nef y nefoedd ger dy fron.

Gan fod ei rieni yn awr wedi marw, yr oedd yn dda gan Timothy dderbyn lletygarwch fy mamgu, nith yr oedd ganddo olwg fawr arni. At hynny, hoffai gadw ei gyswllt a bro ei febyd : iechyd i'w gorff a'i ysbryd ydoedd golwg ar yr hen fryniau. Arferai deithio'r ffordd ar gefn ceffyl.

Edrychais droeon ar y cyfrolau teneu o Weddi a Defosiwn sydd gennyf ar silff uchaf fy llyfrgell. Rhoddion Timothy Davis ydynt, ac ar bob cyfrol y mae ei ysgrifen yn glir " To my dear niece, Jane," " To my great-nephew, John," " To little Eliza," ond gwaetha'r modd ychydig o ôl defnydd a myfyrdod sydd arnynt.

Arferai Timothy Davis ysgrifennu llythyrau yn gyson. Diddorol ydyw'r rhain, oherwydd y bwriant olau ar ddigwyddiadau'r dydd, ar fywydau ei gyd-weinidogion, ac ar ei serch tuag at Gymru. Y mae nifer ohonynt yng nghadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Deffry hen lythyrau hen atgofion, ac ohonynt ynghyd a ffynonellau eraill gellir clytio cyfran o hanes ei deulu. O bryd i bryd deuai rhai o aelodau'r teulu am dro i'r " hen ardal," ac yn gynnar yn yr wyth degau o'r ganrif o'r blaen bu dwy o'i ferched, Caroline a Sarah, yn treulio gwyliau yn Llandysul ac yng nghartref Allen Raine. Pictiwr o anwyliaid oeddynt, mor ddysgedig ac mor addfwyn, eu gwallt gwyn dan gapiau del o *lace*, ac arlliw gwrid eu hwyneb yn chwanegu at eu dengarwch.

Enwyd mab, unig fab, Timothy Davis yn David o barch tuag at ei dadcu enwog. Addysgwyd ef yn gynnar gan ei dad, a datblygodd yn fyfyriwr addawol. Aeth i ysgol dda, a pherffeithiodd ei efrydiau yn Manchester New College. Cyfarfu yno â'r Parchedig W. H. Herford. Yn 1848 ymbriododd W. H. Herford â'i chwaer, Eliz-

abeth Davis, ac yn ddiweddarach daeth yn brifathro y Castle Howel School, Lancaster. Dyna'r enw a roes ar yr ysgol pan gymerth ofal ohoni. Bu David Davis yn weinidog yn Stockport, ac mewn mannau eraill. Addysgai hefyd nifer o fechgyn, ac yn hyn bu'n wir lwyddiannus. Ymddengys iddo etifeddu galluoedd ei dadcu. Ond torrodd ei iechyd, a gorfu iddo gymryd hamdden hir. Yn benderfynol i barhau ei efrydiau enillodd Ysgoloriaeth Dr. Williams ac aeth i Brifysgolion Bown a Jena.

Daeth eisiau athro ar blant Ymerawdr yr Almaen, ac etholwyd ef i'r swydd, swydd y bu ynddi am flwyddyn. Cwympodd mewn cariad ag Ellmynes o'r enw Minna, ac yn nes ymlaen enillodd hithau galon y teulu'n gyfan yn Almswood, Evesham. Merch gartrefol ydoedd, ac ni fu'n hir cyn dangos ei gwerth. Yn 1853 priodasant, ac ar y pryd yr oedd David Davis yn gyd-weinidog â'r Parchedig W. H. Herford ar yr Eglwys Undodaidd yn Lancaster ac yn athro yn yr ysgol. Yn wir, ychwanegodd cysylltiad Mrs. Davies at fri'r ysgol. Gwnaeth hynny oherwydd traddodiad ei hynafiaid. Yn y method o gyflwyno addysg yn yr Almaen safai yr enw Arnold yn uchel, cyn i'r enw erioed roi bri ar Rugby, a chyn i ddê Sir Aberteifi fedi o ffrwyth gwybodaeth Dafis Castell Hywel.

O ddarllen y cofnodion am yr ysgolheigion a fu yn y Castle Howell School, gwelir enwau llawer o'r teuluoedd poblogaidd ymhlith yr Undodiaid fel Osler, Nettlefold, Rathbone, ac eraill. Dynion a adawodd y byd hwn yn well byd oherwydd iddynt fyw ynddo.

Ganed i David Davis ddau fab, Rudolf a Valentine, a dilynasant hwythau hefyd dueddiadau'r teulu. Y maent ill dau erbyn hyn wedi eu galw i'r gwasanaeth uwch. Datblygodd Valentine[1] yn llenor ac am flynyddoedd bu'n golygu un o bapurau'r enwad, *The Inquirer*. Rudolf[2] a'i deulu oedd yr olaf i fyw yn yr hen gartref. Heddiw ychydig iawn o hen dangnet a phrydferthwch " Almswood " sydd yn aros : heddiw clinic ar gyfer y plant bychain ydyw, a chartref y District Nurses. Defnyddir yr ardd er mwyn profi hadau.

Yn Evesham y mae hen annedd arall, Green Hill, cartref y teulu New. Yn yr hafau gynt ogylch ei ddrws tyfai rhosynnau cochion. Yn troellu ei gaeau y mae'r afon Avon. Magwyd yn y cartref hwnnw saith o blant. Ni wn o ba deulu yr hanai'r fam, ond yr oedd y tad, Herbert New, yn Registrar y County Court. Yr oedd hefyd yn ddyn a garai lenyddiaeth, ac yn ei gartref yr oedd croeso

---

[1]Valentine David Davis, B.A. Gweinidog Christ Church, Nottingham 1880—82 ; Toxteth Park, Liverpool 1883—94 ; Liscard 1893—97 ; Golygydd *The Inquirer* 1898—1909 ; Gweinidog Bournemouth 1909—29.

[2]Rudolf Parisius New Davis, B.A. Assistant master at Castle Howell School, Lancaster ; Gweinidog Evesham 1893—1904 ; Bridgwater 1904—08 ; Gloucester 1908—36 ; Gweinidog teithiol y Western Union 1904—1930.

cynnes bob amser i brif lenorion y wlad, dynion fel Bryant, y bardd, J. L. Stanford, yr hanesydd, Thomas Hughes, awdur *Tom Brown's Schooldays*, a R. H. Hutton, golygydd *The Spectator*. Yn Green Hill yr oedd drws agored iddynt i gyd. Yno anogid y plant i ddarllen y llyfrau gorau, caru'r awyr agored, y Lake District yn arbennig. Dysgid hwy hefyd i barchu'r Sabath. Hyfforddwyd hwy yn fore ym mhen y ffordd, a hynny sy'n cyfrif am eu llwyddiant yn nes ymlaen. Pwysleisiai method addysg yr ysgol yn Lancaster ddatblygiad cymeriad fel y pennaf peth. Yn ei ienctid treuliodd Herbert rai blynyddoedd yn Llundain, a chofiai gyda phleser am un tro pryd y gwelodd mewn cyngerdd yn St. James's Hall George Eliot a Robert Browning yn eistedd yn ymyl ei gilydd, y nofelydd yn gwisgo bonnet hen ffashwn a chwmwl o dristwch ar ei hwynepryd plaen. Yn ystod gweinidogaeth Dr. Martineau yng Nghapel Little Portland Street daeth i adnabod Francis Power Cobbe, dynes fach fywiog yn llawn hiwmor a charedigrwydd.

Oherwydd gwaeledd iechyd gorfu i'r Parchedig Timothy Davis roi'r fugeiliaeth yn Evesham i fyny ar Orffennaf 17, 1853. Loes i gynulleidfa a'i carai mor fawr ydoedd derbyn ei ymddiswyddiad, ac ar Fawrth 30 yn y flwyddyn ddilynol anrhegwyd ef a Mrs Davis â Silver Tea and Coffee Service.

Yn 1858 bu eu perthnasau o Gastell Newydd yn ymweld â theulu Almswood. Erbyn hyn yr oedd Timothy Davis yn hen a methedig. Yn ofer y disgwyliai am dreulio gwyliau arall yng Nghymru, canys wedi cystudd hir bu farw yn Nhachwedd 1860 yn bedwar ugain oed. Yn ei angladd gweinyddwyd gan ei olynydd, y Parchedig John Calbraith Lunn. Ar y mur yng Nghapel Oat Street, Evesham, y mae cofnod ar faen mynor—

In memory of
the Rev. TIMOTHY DAVIS
who was born at Ciliau Aeron, Cardiganshire
on the 20th November, 1779
and died at Evesham on the 28th November, 1860
His public ministry extended over 55 years
Of which eleven were spent in Wales
Nine at Coventry
And thirty-five terminating March 1854 in this place.

The memorial of
the devout life and practical teaching
by a faithful and affectionate Christian Minister
is erected by
the members of this congregation.

Ar aelwyd Timothy Davis codwyd pump o blant. Soniwyd eisoes am ei unig fab, y Parchedig David Davis, ac am y ddwy chwaer, Caroline a Sarah. Bu Caroline farw yn 1886 yn 73 mlwydd oed, a Sarah yn 1889 yn 60 mlwydd oed. Enwau'r ddwy chwaer arall oedd Elizabeth a Jane. Cyfeiriwyd eisoes at briodas Elizabeth yn 1848 â'r Parchedig W. H. Herford a ddaeth wedi hynny yn brifathro'r Castle Howell School, Lancaster. Bu'r teulu Herford am gan mlynedd yn enwog yng nghylchoedd addysg Manchester, lle yr oedd y brodyr Charles a William yn ddineswyr o bwys. Perthynas iddynt oedd y Parchedig Brooke Herford, gweinidog yn Chicago ac wedi hynny yn Hampstead, Llundain. Bu ei ddau fab, John ac Oliver, yn ysgolheigion yn Lancaster, a'i ferch hynaf, Helen, oedd sylfaenydd Cynghrair y Gwragedd. Cododd mab hynaf Charles Herford i sefyllfa uchel iawn ym myd addysg. Derbyniodd ei addysg gynnar gan ei ewythr, W. H. Herford, ac amcanai fod yn bensaer (architect), ond newidiodd y pwyntil am yr ysgrifbin ac yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt bu iddo yrfa ddisglair. Etholwyd ef yn Athro Llenyddiaeth Saesneg yng Ngholeg Aberystwyth yn 1887, ac yn 1901 aeth i Owen's College, Manchester lle y bu'n efrydydd yn ei ienctid. Yno y bu hyd nes yr ymddeolodd yn 1921. Gweithiwr diflino oedd yr Athro C. H. Herford. Ymhlith ei lyfrau mwyaf poblogaidd y mae *The Age of Wordsworth*, argraffiad o *Shepherd's Calendar*, cyfrol ar Browning. Anrhydeddwyd ef â'r radd o Ddoethor gan Brifysgolion Caergrawnt, Manceinion, a Chymru. Fel ei ewythr, y Parchedig W. H. Herford, bu'n astudio yn yr Almaen, a siaradai Ellmyneg yn rhugl, ac fel y Parchedig David Davis, Almswood, cyfarfu yntau â'i wraig yn y wlad honno. Yr oedd Dr. Herford a'i fab a'i ferch yn hoff o ddringo mynyddoedd, a daeth ei fab, Wedgewood, yn enwog fel un o oreuon y byd am ddringo creigiau. Collodd ei fywyd yn Rhyfel 1914—1918, ac effeithiodd y ddyrnod hyd y diwedd ar fywyd ei dad.

Rhaid cydnabod gwroldeb Elizabeth Davis pan feddyliwn amdani ymhlith y doethion hyn. Bu'n gymorth i'w gŵr yn ei waith, a bendithiwyd hwy â nifer o feibion ac un ferch. Yn 1885 aeth y ferch dros y môr gyda'i gwr i'r Falkland Islands, man anghysbell o'r Ymerodraeth. Cadw defaid oedd prif ddiwydiant yr ynysoedd, ac yr oedd ganddynt hwythau filoedd o ddefaid. Ofnai'r modrybedd fod y wraig ifanc yn rhy ddibrofiad, ond pan ddaeth y ddau yn ôl i'r famwlad am dro gwelid fod yr hinsawdd iachusol a'r tiroedd agored wrth eu bodd.

Priododd Jane Davis â S. B. Worthington yn 1852. Adnabu ef, wrth bob tebyg, yn ystod ei hymweliadau mynych â Lancaster. Yr oedd S. B. Worthington yn llawer hynach na hi. Hanai o Bowdon, Cheshire. Ym mabandod teithio ar y rheilffyrdd daeth S. B. Worthington yn amlwg fel *engineer* talentog, a thrwy ei gyfarwyddyd ef yr adeiladwyd rhai o brif rheilffyrdd y deyrnas. Cofiai

am amser George Stephenson, a llawenhâi am y cyfnewidiadau a ddaeth wedi hynny. Ef oedd surveyor y ffordd haearn o Carlisle i Edinburgh a Glasgow, ond ei gampwaith yw'r rheilffordd o Paris i Rouen. Cynlluniodd y gwaith hwn dan gyfarwyddyd Joseph Locke, a daethant ill dau i enwogrwydd mawr. Pan agorwyd y ffordd haearn ym Mai 1845 anrhydeddwyd Mr. Locke â'r Legion of Honour. Bu farw Mr. Worthington yn Chwefror 1915 wedi oes hir a defnyddiol o gan mlynedd ond pump. Dilynwyd ef yn ei alwedigaeth gan ddau o'i feibion, Willian ac Edgar. Daeth mab arall, Arthur, yn gyfreithiwr llwyddiannus yn Llundain.

O blith llawer o bapurau tynnaf y dyfyniad hwn o bapur dyddiol. Sôn y mae am ddyweddiad Phyllis Margaret Worthington, merch ieuengaf y diweddar Edgar Worthington a Mrs. Worthington, St. John's Gardens, Llundain a Laurence Wager, "the Everest and Arctic air routes explorer and geologist." Yr oedd Mr. Wager yn un o ddau aelod o'r Everest Expedition a gafodd fwyall Mallory ac Irvine ar ôl dringo 29,000 o droedfeddi. Am ei wasanaeth derbyniwyd ef gan y brenin, ac arwisgwyd ef â'r Polar Medal 1930—31.

Y mae llawer o hen atgofion y teulu'n ddiddorol oherwydd eu cyswllt â Cheredigion. Yr oedd Allen Raine yn llawer iengach na'i chyfnither, Janie Worthington, ond hoffai bob amser ymweld â Manceinion. Ar y llaw arall ymhyfrydai Mrs. Worthington yn unigedd a thangnefedd Glandwr, hên faenol Traethsaith, lle yr arferai hi a'i phobl dreulio wythnosau'r haf. Daliai hen drigolion y pentref fod "bwci" yn meddiannu'r hen dŷ. Yr oedd yno ddrysau na allent gau nac agor, crecian yn y lloriau, a sŵn fel sŵn cerdded ar ganol nos. Bydd hen gyfeillion yn cofio'r stâr droeog, y ffenestri Ffrengig, a'r cyfoeth o gennin Pedr yn tonni dan awelon y môr. Yn groes i'r bau doi cri'r gwylain a nythai yn agennau'r creigiau. Yn nhawelwch noson olau leuad clywid hŵt y ddyllhuan a chyfarth y cadno a'r tonnau yn treiglo yn ôl dros gerrig y traeth.

Aeth blynyddoedd heibio cyn yr adeiladwyd Bronmôr, ond pan ddaeth angen ar y nofelydd Cymraeg am bensaer i gynllunio cartref prydferth, dewisodd ei chefnder, Locke Worthington. Ef â llygad artist a dynnodd blan Capel y Graig, Llandysul, ar ddymuniad fy nhad—capel a agorwyd mewn amgylchiadau mor drist yng Nghorffennaf 1884. Daliodd Janie Worthington ac Allen Raine yn gyfeillion hyd y diwedd. Ysgrifennent yn gyson at ei gilydd hyd farw Janie Worthington yn 1891.

Ychydig feddyliodd y Parchedig Timothy Davis wrth ymadael â Chastell Hywel ei fod y dydd hwnnw yn mynd allan i godi teulu a fyddai mor enwog ymhlith yr Undodiaid ac yng nghylchoedd addysg.

"Hanes Lledaeniad Cristnogaeth."

Gan K. Scott Latourette, Llundain. 1945.

[*Cyfeithiad o Bennod II, Cyfrol I.*]

Beth oedd Cristnogaeth ar y dechrau? Edrychai Cristnogaeth ar hyd yr oesau, yn ôl at Iesu fel ei sylfaenydd ac ystyriai ef fel ei phrif arwr. Yn ôl rhai ysgolheigion, ni ellir cyfiawnhau yng ngolau hanes y lle amlwg a roddir i Iesu. Haerant nad oedd ganddo ond ychydig i'w wneud â chychwyn a lledaenu Cristnogaeth,—mai rhyw bersonoliaeth niwlog sydd iddo a phrin yw'r cofnodion credadwy amdano. A chan fod y rhai hynny yn seiliedig ar draddodiad llafar, eu bod yn agored i chwanegu atynt a'u newid i ateb dibenion, damcaniaethau a diffyg dirnadaeth y sawl a'u gosodai ar glawr. Gan hynny, meddir, ni allwn deimlo yn sicr fod geiriau a dywediadau a briodolir i Iesu yn hollol fel y llefarodd ef hwynt, na chwaith am gynnwys ei ddysgeidiaeth. Ni sgrifennodd ef ddim, ac ni phoenodd ynghylch trefnyddiaeth ei fudiad. Crefftwr o bentref bychan oedd ef, ac ni theithiodd tuallan i ffiniau cyfyng Palesteina. Ni ddaeth i gyswllt, meddant, â meddylwyr mawr yr hen fyd, ac nid oedd gorwelion ei feddwl ar y gorau ond eiddo Iddew duwiol o Balesteina. Yr oedd yn ddiamau yn gywir ei amcan, ond nid oedd yn berchen meddwl creadigol y gallwn ei ystyried fel tarddiad crefydd sydd mor fydeang a nerthol ac yw Cristnogaeth. Rhaid dweud bod y syniad hwn, er y gosodir ef allan weithiau mewn ffordd apeliadol a medrus, yn anwybyddu neu yn lleihau gwerth rhai ffeithiau pwysig. Rhoddwyd y traddodiad llafar, y seiliwyd ein Hefengylau arno, mewn ysgrifen yn dra chynnar,—rhan ohono, yn ôl pob tebyg, ryw un genhedlaeth ar ôl y digwyddiadau a'r dywediadau a gofnodir. Nid bywgraffiadau yn yr ystyr fodern yw'r Efengylau. Ychydig o sylw a roddir ynddynt i amseriad pethau, ac y maent heb air i'w ddweud am y rhan fwyaf o flynyddoedd bywyd Iesu.

Darnau o ymddiddanion, dywediadau gafaelgar, damhegion, a digwyddiadau, a rhai ohonynt heb unrhyw sylw i'w hamseriad, sy'n cyfansoddi rhannau helaeth o'r tair Efengyl gyntaf; a dehongliad yn bennaf yw'r bedwaredd. Er hynny, wrth ystyried popeth, erys y ffaith bod gennym ddigon o fater i roi darlun clir o brif nodweddion y person yr ymdrinir ag ef. A phe na bai gennym y pedair Efengyl hyn, gallem oddiwrth lythyrau Paul a sgrifennwyd genhedlaeth ar ôl Iesu, ffurfio syniad gweddol gyflawn am brif ddysgeidiaeth a natur marwolaeth Iesu a'r gred ddiysgog yn ei atgyfodiad. Yn wir tystia un ysgolor diofn (Schweitzer) mai am

ychydig o wŷr yr hen fyd y mae inni gymaint o wybodaeth hanesyddol sicr ag y sydd gennym am Iesu ; ac mai ychydig yw y rhai a adawodd gynifer o ymadroddion dilys ag a wnaeth ef. Yn ôl pob tebyg, mae'r ymadroddion a briodolir i Iesu yn nes at fod yn llythrennol gywir na'r rhai, er enghraifft, a dadogir ar Socrates.

Ymhellach, os na theithiodd Iesu lawer o'i wlad, ni wnaeth Socrates na Phlato hynny chwaith, ac nid oedd Palesteina yn wlad ddiarffordd mewn cornel o'r byd ; canys yr oedd rhai o brif-ffyrdd masnach yr Ymerodraeth Rufeinig yn mynd trwyddi ; ac yr oedd Nasareth, lle y magwyd Iesu, yn agos i un ohonynt. Yr oedd Iesu hefyd, fel y mae'n amlwg, yn gyfarwydd ag etifeddiaeth grefyddol ei genedl. Daeth i gyswllt byw yn yr Ysgrythurau Iddewig â rhai o'r meddyliau crefyddol mwyaf treiddgar, ac â rhai o'r mynegiadau o egwyddorion moesol mwyaf godidog y gŵyr yr hil ddynol amdanynt. Mewn Iddewiaeth ceid olion dylanwadau prif ddiwylliant y Dwyrain hynafol wedi eu crynhoi a'u cyfrodeddu a chrefydd a oedd ar ei phen ei hun mewn rhagoriaethau.

Dylid dweud hefyd, fod y darlun a roddir o Iesu yn y pedwar llyfr cyntaf o'r Testament Newydd, pa un bynnag a yw'n hanesyddol gywir ai peidio, wedi ei dderbyn trwy'r canrifoedd, gan gorff mawr y byd Cristnogol, fel un dilys a chredadwy. Suddodd, gan hynny, yr ymadroddion a'r gweithredoedd a gofnodir ynddynt i graidd a changen y grefydd Gristnogol. Nid oes gysgod o amheuaeth i'r mudiad a elwir gennym yn Gristnogaeth ddechrau gyda Iesu ; ac i dyrfa aneirif o arweinwyr Cristnogol y geiriau, a'r gweithredoedd, angen ac atgyfodiad a briodolir iddo ef, a fu'n safon i farnu cywirdeb cred a buchedd, o leiaf mewn proffes. Bu llu o Gristnogion yn anwybodus o gynnwys yr Efengylau, a llawer o'r arweinwyr, yn eu buchedd, yn anghyson â hwy, ond goroesodd y ddelfryd a gynwysant. Oddiwrth Iesu y daeth yr ysgogiad a roddodd fod i Gristnogaeth, a'r hyn a gredai pobl iddo ei lefaru a'i wneud a ddaeth yn safon i'r ffydd Gristnogol.

Ychydig a wyddom am faboed a blynyddoedd ieuenctid Iesu, ond amlwg yw mai ym mhentref Nasareth yng Ngalilea, yn y bryniau sy'n ffinio ar wastadedd Esdraelon, gyda'u hatgofion cyffrous, ac yn agos i brif-ffyrdd yr hen fyd, y cartrefai. Adwaenid ef fel saer coed, ac yr oedd ei fam, ac o leiaf bedwar brawd a dwy chwaer iddo yn fyw pan ddechreuodd ar ei yrfa gyhoeddus. Gan nad ymddengys enw Iosef ar ôl hanesion ei febyd, naturiol credu ei gladdu cyn i Iesu ddechrau pregethu, a bod cynhaliaeth y teulu ar ysgwyddau Iesu fel y mab hynaf. Credir yn aml y gwyddai Iesu beth oedd tlodi dwys, ond nid oes brawf amlwg o hyn. Ar y llaw arall, maentumir iddo ddod o gartref gweddol ddibryder a chysurus. Ni ellir profi hyn chwaith. Modd bynnag, eglur yw oddiwrth ei ymadroddion y gwyddai yn dda am fyd a bywyd y bobl gyffredin. Hefyd, fel y cyfeiriasom, sicr yw iddo gael ei drwytho yn

llenyddiaeth ei genedl, ac iddo fyfyrio yn ddwys ac yn ddiwyd drosto'i hun bynciau crefyddol a moesol. Deuteronomium, y Salmau ac Esaia a adawodd eu dylanwad ddyfnaf ar ei feddwl. Hoffai fyd yr awyr-agored ac yr oedd yn fyw i amrywiaeth natur, ac yn gyflym ei feddwl. Yr oedd edrychiad ei lygad yn dreiddgar, fel y mae'n hawdd casglu. Dengys ei ddamhegion a'i ddywediadau craff ei fod yn meddwl mewn darluniau ac nid mewn termau athronyddol. Yr oedd yn fyw i ochr ysgafn pethau ac y mae rhai o'i ddywediadau yn fwrlwm o arabedd.

Saif Iesu allan yn amlwg yn y pethau hyn oll yn y tair Efengyl gyntaf, ac mewn rhai ohonynt y mae'n dra gwahanol i sgrifenwyr a phersonau eraill yn y Testament Newydd. Cyn ei yrfa gyhoeddus ymddengys na wnaethai yr argraff ar ei gyfoedion fod ynddo ddim neilltuol.

Pan ddychwelodd i dalu ymweliad â hwy fe'u synnwyd gan y newid a ddaeth trosto rhagor y bu pan yn cartrefu gyda hwynt. Ioan y Bedyddiwr a fu'n gyfrwng i achosi'r newid a'i gychwyn ar ei yrfa gyhoeddus. Cytuna'r hanesion sydd gennym fod a wnelai pregethu Ioan â galw Iesu. Ymddengys iddo deimlo grym yr alwad nes iddo ymneilltuo i unigrwydd i roi ystyriaeth ddwys i'w hystyr, ac yn ôl yr Efengyl hynaf, wedi distewi Ioan y daeth ef allan i barhau ei fudiad, ond gydag elfennau newydd yn ei genadwri. Yn ei chwaeth, yr oedd Iesu yn dra syml, ac yn hollol annibynnol ar feddiannau bydol, ac er yn gynefin a thlodi, nid oedd mewn un modd yn feudwyaidd ei ffordd. Daeth " yn bwyta ac yn yfed." Nid ymddengys chwaith iddo, fel Ioan, ddysgu unrhyw drefn o ffurfwasanaeth addoliadol. Patrwm gweddi yn hytrach na ffurfweddi yw Gweddi'r Arglwydd. Un gwahaniaeth amlwg rhyngddo ag Ioan a adlewyrchir yn ei barodrwydd i adfer iechyd corff ac enaid i gynifer o bobl. Yr oedd yn chwyrn wrth y balch a'r hunangyfiawn, y rhagrithiwr a'r didrugaredd, y cybydd a'r maleisus a'r llwfr ; ond yn dyner rhyfeddol wrth y gofidus ei ysbryd a'r edifeiriol, gan eu cynhesu, eu gwroli a'u llanw a gobaith.

Rhaid chwanegu at y nodweddion hyn y ffaith fod gan Iesu y teimlad o barch i Dduw a gostyngeiddrwydd ger ei fron sy'n amlwg yn y traddodiad Hebreig. Ambell waith anghofiwn mor aml y mae ef yn sôn am farn Duw ar yr annuwiol a'r gwr anwir. Nid Duw y gellid cellwair ag ef oedd ei Dduw ef. Ond yr oedd ganddo lawer i'w ddweud am ddaioni a thosturi Duw, a'i hoff enw arno oedd ' Tad.' Fel Tad, gallai dynion ymddiried ynddo ac yn ei ofal, ac apeliai Iesu at ddynion i'w efelychu yn ei barodrwydd diduedd i gynorthwyo.

Ni cheisiodd ateb holl ofynion pobl ynglŷn â Duw. Er enghraifft, parhai dirgelwch dioddefaint, a gweddiau'r cyfiawn yn ôl pob golwg heb eu hateb yn ddirgelion. Ond dysgai y dylai dynion ymddiried

yn Nuw, hyd yn oed pan na ddeallent ei ffyrdd. Dysgai fod Duw yn maddau, a phwysleisiai fod medru maddau yn amod cael maddeuant. Yr oedd ganddo ymwybod byw o degwch rhwng dyn a dyn, ond perswadiai ddynion i ragori ar hynny yn eu gwasanaeth i'w gilydd. Nid oedd ganddo le yn ei ddelfrydau i safle a dylanwad cymdeithasol yr arferai dynion ddyheu amdanynt. Safon mawredd iddo ef oedd nid cael dynion yn ddarostyngedig i'n hewyllys ni, ond mewn bod yn wasanaethgar trwy ewyllys da i'w gilydd. Ymddengys y derbyniai y Gyfraith Iddewig yn ddigwestiwn, ond hawliai mai diben ei defodau oedd cynorthwyo dynion yn eu hangen a rhoddodd siampl mewn gweithred o'i ddehongliad ohoni.

Siaradai lawer am Deyrnas Dduw. Tebyg iddo fabwysiadu'r term o lenyddiaeth apocalyptaidd, er nad yw'r enw yn amlwg yn y llyfrau a oroesodd. O leiaf, ymddengys fod y term yn ddigon adnabyddus i'w wrandawyr a chymerai yntau yn ganiataol y deallent ef. Iddo ef, peth presennol a pheth i ddyfod oedd Teyrnas Dduw. Yr oedd dynion i'w derbyn drostynt eu hunain, a mynd i mewn iddi drwy weithred o'u dewis hwy. Nid terfynau materol oedd iddi, ond gallai dynion gadw eu cysylltiadau cymdeithasol a bod yn aelodau ohoni. Er hyn, edrychai Iesu ymlaen i'r amser yr ysgubid y byd hwn o'r neilltu ac y sefydlid y Deyrnas drwy weithred uniongyrchol Duw. Pa bryd y deuai yn ôl ei farn ef ni ellir ateb, ond cynhwysai ei syniad am y Deyrnas gysylltiadau cymdeithasol y deiliaid ; a'i hegwyddor fawr fyddai cariad, nodweddion y cyfryw yw ewyllys da, maddeugarwch, caredigrwydd a gostyngeiddrwydd.

Amlwg hefyd yw yr ystyriai Iesu ei hun fel y Meseia, ond ni cheisiodd sefydlu Teyrnas Dduw trwy gyfryngau politicaidd, a dylid cofio ei fod mewn gwlad a oedd yn berwi gan ysfa i ymryddhau oddiwrth iau Rhufain. Ni fynnai ef godi gwrthryfel yn erbyn Rhufain.

Nid oedd trefnyddiaeth ynglŷn â'i fudiad yn cael sylw ganddo, yn ôl pob hanes. Nid yw'r gair eglwys a roddir ar ei wefus yn naturiol iddo, ac er iddo benodi nifer i gyd-bregethu ag ef, ni osododd neb ohonynt yn swyddog ar y lleill. Ymddengys fel pe bae trefnyddiaeth yn groes i'w ysbryd. Nid ystyriai ei fudiad fel yn torri cysylltiad a chrefydd ei genedl yn y gorffennol, ond perthynai iddo elfennau newydd. Er hynny, ystyriai y Phariseaid fod newydd-deb ei fudiad yn bygwth dymchwel crefydd y tadau a pharodd ei waith yn glanhau y Deml i'r Saduceaid ei ystyried yn elyn i'r ffurf offeiriadol o wasanaethu Duw. Seiliai ef ei ddysgeidiaeth ar orchymyn aruchel y Gyfraith i garu Duw a chymydog. Unai y ddau orchymyn fel yn anwahanadwy. Pwysleisiai ansawdd ysbryd crefyddwr yn hytrach nag unffurfiaeth grefyddol. Nid oes sicrwydd am ei deimlad ar bwnc agor y Deyrnas i genedlddyn, ond awgryma ei ymddygiad tuag at y canwriad nad oedd ei ragfarn yn

cau allan y dienwaededig. Gwyddai y byddai ei fywyd mewn perygl yn Ieriwsalem, ond credai y dylai gyhoeddi ei neges yno. Diweddwyd ei yrfa gan yr awdurdodau cyn i'w ddilynwyr gael cyfle i ymgasglu, ond bu trasiedi ei groeshoelio yn gychwynfa i'r mudiad rhyfeddaf ei ddylanwad yn hanes y byd, ffaith na ellir ei hanwybyddu, pa fodd bynnag yr esbonnir hi.

Nodion yr Eglwysi.

TREBANOS.—Ar Dachwedd 27 bu ieuenctid y gynulleidfa'n estyn eu croeso i ieuenctid cynulleidfa Abertawe. Daeth nifer dda ynghyd i fwynhau cwmni ei gilydd.

Dydd Sadwrn cyn y Nadolig cynhaliwyd y 'Sale of Work' flynyddol. Gŵyr y cyfarwydd am anawsterau'r dyddiau hyn i gasglu'r nwyddau angenrheidiol, ond ni lesteiriodd hynny'r ymdrech, a phleser cofnodi fod llwyddiant yn goron ar y fenter. Agorwyd y tro hwn gan un arall o'r ffyddloniaid, Miss M. A. Morgan, y Darren. Gwerthfawrogir ei dymuniadau am y dônt o galon sy'n llawn o gariad tuag at yr achos. Ni chynhelir yma yr un cwrdd heb ymdrech ar ei rhan i fod ynddo. Gwerthfawrogir hefyd ei haelfrydedd tuag at yr achos. Cyflwynwyd hi gan Miss Ann Morgan, llywydd yr adran o Gynghrair y Gwragedd. Rhoddwyd i Miss M. A. Morgan glwm o flodau, pink carnations, gan nith iddi, Ceris Davies, a rhoddodd hithau i Ceris ddoli hardd. Yn ei ddiolch i Miss Morgan cyfeiriodd Mr. John Hopkin ati fel esiampl o'r aelod perffaith mewn cynulleidfa. Gofalwyd am y byrddau gwerthu gan y canlynol: *Gwaith ffansi*—Mrs. Gwyn Davies, Mrs. Bryn Morgan, Mrs. D. B. Rees, Mrs. D. G. Williams. *Gwaith gwau*—Mrs. W. J. Bowen, Mrs. M. T. Davies, Mrs. G. Bowen James, Mrs. J. D. Jones. *Bwydydd a lluniaeth ysgafn*—Miss R. A. Bowen, Mrs. D. T. Davies, Mrs. A. G. Hartnell, Mrs. Evan Phillips, Mrs. D. G. Thomas. *Pren Nadolig*—Mrs. Richard Lewis, Mrs. Phil. Powell. Gweinyddwyd wrth y byrddau tê gan Mrs. Idris Bowen, Miss Hannah Davies, Mrs. George Harry, Mrs. Tom Jones, Mrs. L. W. Lott, Mrs. D. H. Morgan. Gofalwyd am gyflenwad y byrddau gan Mrs. D. W. Bowen, Mrs. Banos Davies, Mrs. S. J. Edwards, Miss Ann Morgan, Mrs. A. J. Williams, a Mrs. Tom Ayres yn gofalu am ddwr berw. Yr oedd y cystadleuthau dan ofal Miss Ray Davies, Miss Nancy Evans, Mrs. J. M. Jones, Miss Marian Lewis, Miss Derith Powell, Miss Olive Thomas, Miss Meudwen Williams. Y stiwardiaid oedd y Mri. Dl. W. Bowen, W. J. Bowen, S. J. Edwards, Bryn Morgan, D. H. Morgan, Lewis Morgan, Harry J. Williams.

Trefnwyd gwasanaeth yr hwyr ar y Sul cyn y Nadolig gan ieuenctid y gynulleidfa, ac ar fore'r Nadolig cynhaliwyd Cwrdd Gweddi. Da ydoedd gweld cynhulliad mor odidog am wyth o'r gloch. Ni chynhaliwyd cyfarfod tebyg i hwn yma ers blynyddoedd.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.